Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **10 Hydref 2016** |
| **Amser:** | **11:05 – 12:25** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>PC Jo Thompson, Swyddog Staff Cynorthwyol (JT)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB)<br>Miss Jessica Williams, Rheolwr Ariannu Allanol, SCHTh (JW) – rhan o'r cyfarfod |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 28/09/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2055** | **CHTh, PSA a CC i gwrdd â CHTh Gogledd Cymru i drafod fformiwla ariannu'r heddlu** | **Cyfredol** |
| **PB 2056** | **Yr Heddlu i gyflwyno ymateb i ystyriaethau a godwyd yn y papur Oedolion Priodol yn y cyfarfod nesaf** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2057** | **CHTh, PG a CM i drafod materion AD ar ôl y cyfarfod** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2058** | **Yr Heddlu i hyrwyddo llwyddiant cydymffurfiaeth â'r cynllun Stopio a Chwilio** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2059** | **CA i rannu amserlenni arfaethedig ar gyfer y broses penodi DBG â'r CHTh** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 10/10/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 08** | **Yr Heddlu i ymgymryd â'r cytundeb Oedolion Priodol** | **Prif Arolygydd y Ddalfa** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi a materion yn codi**

PB 2055 – cyfarfod gyda CHTh Gogledd Cymru mewn perthynas â'r fformiwla ariannu. Cadarnhawyd bod trefniadau ar waith. Cadarnhaodd y CHTh a'r PG y byddai'r mater yn cael ei drafod yn y Grŵp Plismona Cymru Gyfan ar 11 Hydref. Dywedodd y CHTh bod pob Arweinydd, AC ac AS lleol wedi'u gwahodd i uwch-gynhadledd ddydd Gwener ar y fformiwla ariannu. Roedd wyth cynrychiolydd wedi cadarnhau y byddant yn bresennol. Awgrymwyd y dylid cynnig cyfleusterau cynadledda fideo os yn bosibl.

**Cam gweithredu: Ystyried cyfle ar gyfer fideo gynadledda ar gyfer yr uwch-gynhadledd fformiwla ariannu ar 14/10/16**

PB 2056 – Defnyddio Oedolion Priodol. Cadarnhaodd y PG bod llawer o gyngor ac arweiniad wedi'i roi i swyddogion y ddalfa mewn perthynas â phryd i alw ar y gwasanaeth Oedolion Priodol a ddarperir gan Hafal. Eglurodd y PG y cysylltir â theulu a ffrindiau yn gyntaf, ac os na wneir cysylltiad o fewn ffrâm amser boddhaol, gofynnir i Hafal am gynrychiolydd. Mae canllawiau'n awgrymu caniatáu hyd at awr ar gyfer oedolion ac ugain munud ar gyfer plant yn y ddalfa i aros i gysylltu â theulu neu ffrindiau. Tynnodd y PG sylw at ddyletswydd Awdurdodau Lleol i ddarparu Oedolion Priodol ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn eu gofal, a dywedodd y gall swyddogion y ddalfa ganiatáu hyd at 3 awr ar gyfer ymateb gan yr Awdurdod Lleol cyn ceisio gwasanaethau gan Hafal. Ystyriodd y PG nad oedd y gwasanaeth yn cael ei gamddefnyddio, ond gall fod tuedd i ddefnyddio'r gwasanaeth sydd hawsaf ei gael.

Holodd y CHTh pa un ai a oedd gwaith rheoli galw'n cefnogi gwariant arfaethedig mwy realistig, gan fod y costau cyfredol yn uwch o lawer na'r hyn a ddisgwyliwyd yn flaenorol. Roedd y PG yn cydnabod bod y costau wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel o lawer. Roedd gwaith yn digwydd er mwyn lleihau costau lle bo'n bosibl, ac ar yr un pryd, cyflawni'r ddyletswydd i ddarparu'r gwasanaeth, yn ogystal â rhagamcanu costau mwy cywir ar gyfer y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phwy ddylai gomisiynu a monitro'r gwasanaeth. Cytunwyd mai'r Heddlu ddylai fod yn gyfrifol am y cytundeb a monitro'r gyllideb gan mai cyfrifoldeb statudol y PG oedd darparu cynrychiolaeth Oedolion Priodol, gyda SCHTh yn parhau i graffu ar y mater. Awgrymwyd y dylai Prif Arolygydd y Ddalfa a'r Cyfarwyddwr Comisiynu barhau i gwrdd bob yn ail fis er mwyn adolygu'r defnydd, a bod diweddariadau chwarterol yn cael eu darparu mewn cyfarfodydd Bwrdd Plismona hyd nes y bydd Aelodau wedi'u sicrhau bod defnydd a chostau a ragwelir yn gymharol sefydlog.

**Penderfyniad: Yr Heddlu i ymgymryd â'r cytundeb Oedolion Priodol**

**Cam gweithredu: Diweddariad ynghylch y defnydd o oedolion priodol i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar sail chwarterol**

PB 2057 – Materion AD. Gofynnodd y PG am i'r mater gael ei drafod ymhellach yn breifat ar ddiwedd cyfarfod y Bwrdd Plismona.

PB 2058 – Cyfathrebu ynghylch cydymffurfiaeth o ran Stopio a Chwilio. Cadarnhaodd MMS bod hyn wedi'i gyflwyno i'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol ar gyfer gweithredu.

Dywedodd y CHTh ei fod yn teimlo bod yr adroddiad ar gydymffurfiaeth o ran troseddau trais rhywiol gan AHEM yn ddiddorol, a gofynnodd i'r Heddlu ddarparu crynodeb.

**Cam Gweithredu: Rhoi crynodeb o'r adroddiad ar gydymffurfiaeth o ran troseddau trais rhywiol gan AHEM i'r CHTh**

## Diweddariad gan y Prif Gwnstabl

Yn weithredol, roedd yr Heddlu wedi bod yn brysur iawn dros y bythefnos ddiwethaf. Aed â 4 heddwas i'r ysbyty yn dilyn digwyddiad treisgar a oedd yn ymwneud ag ymosodiadau gan gŵn. Roedd dau o'r swyddogion a anafwyd dal i ffwrdd o'r gwaith o ganlyniad i'w hanafiadau. Roedd un unigolyn wedi'i gadw yn y ddalfa ar gyhuddiadau lluosog. Soniodd y PG am ddamwain marchogaeth angheuol yn Nhregaron, a dywedodd bod ymchwiliadau'n parhau mewn perthynas â chyflenwi cyffuriau a allai fod wedi'u halogi a arweiniodd at wyth o bobl yn cael eu tywys i'r ysbyty yn Llanfair-ym-Muallt. Roedd dau feiciwr modur wedi'u lladd mewn digwyddiad ar yr A40. Holodd y CHTh am y ffigurau cyfredol ar gyfer gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol. Cadarnhaodd MMS y byddai'r rhain yn cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu: Darparu diweddariad ynglŷn â nifer y gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona**

Nododd y PG y dedfrydau sylweddol a roddwyd yn dilyn Ymgyrch Phobos, a chadarnhaodd y byddai cymeradwyaethau'n dilyn ar gyfer y swyddogion a oedd yn gysylltiedig. Dywedodd MMS y byddai'r CHTh yn cael ei wahodd i'r seremoni.

**Cam gweithredu: Gwahodd y CHTh i seremoni cymeradwyaethau'r PG**

Cadarnhaodd y PG na fu newid yn weithredol, gyda 7 aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd.

## Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Nododd y CHTh yr uwch-gynhadledd cynllunio ariannol trawsbleidiol a oedd wedi'i drefnu ar gyfer diwedd yr wythnos honno. Roedd y tendr gwaith ystadau brys yn mynd rhagddo – roedd cyflwyniadau wedi'u derbyn gan gwmnïoedd tendro'r wythnos diwethaf. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo o ran ariannu cynlluniau tymor hirach. Dywedodd y CHTh y byddai'r Cynllun Heddlu a Throseddu drafft yn cael ei gyflwyno i'r Panel Heddlu a Throseddu ddydd Gwener.

Daeth JW i mewn i'r ystafell.

**Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol**

Dywedodd y PSA y byddai trafodaethau grŵp aur cenedlaethol yn cychwyn ar 24 Hydref mewn perthynas â'r fformiwla ariannu. Byddai'r CHTh ar gyfer Gogledd Cymru'n cynrychioli heddluoedd Cymru ar y grŵp, a byddai grŵp technegol yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y fformiwla'n ddiogel yn dechnegol. Roedd Prif Swyddogion Ariannol HDP a De Cymru wedi gwirfoddoli i ymuno â'r gweithgor technegol. Disgwylir y bydd ymgynghori ffurfiol gan y Swyddfa Gartref ar y fformiwla arfaethedig yn cychwyn ar 23 Tachwedd, ac mae'n debygol o redeg tan fis Chwefror. Nid yw'n hysbys eto pryd y bydd fformiwla newydd yn dod i rym, ond mae arwyddion cynnar yn awgrymu y gallai gael ei gyflwyno ar gyfer 2018/19.

Cadarnhawyd y bu cynnig "Arbenigol" HDP i'r Gronfa Drawsnewid yn aflwyddiannus, ond roedd y cynnig "Doethineb" ar y cyd wedi'i argymell ar gyfer cyllid. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod yng Ngrŵp Plismona Cymru Gyfan.

Byddai'r Gronfa Arloesedd yn dod i ben ar ôl cwblhau'r prosiectau cyfredol, gyda'r holl arian yn y dyfodol yn cael ei gyfuno i'r Gronfa Drawsnewid. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r angen ar gyfer mwy o gynigion ar y cyd, a chyflwyno cynigion i gyflenwi Gweledigaeth Plismona 2025, sydd ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Mynegodd y CHTh yr angen ar gyfer datblygu cynigion ochr yn ochr â'r grŵp ymchwil, sydd heb ei sefydlu eto. Dywedodd y CHTh y dylid sefydlu'r grŵp hwn ar unwaith.

**Cam gweithredu: Sefydlu grŵp ymchwil a chynnal cyfarfod agoriadol cyn diwedd y flwyddyn**

**Diweddariadau**

***Cyllid y Ddeddf Elw Troseddau (PB 2043)***

Cyflwynodd JW y papur a oedd yn amlinellu bod £315,000 yn y gyllideb Deddf Elw Troseddau. Dywedodd y CHTh ei fod yn awyddus i ail-fuddsoddi'r arian. Roedd yr adroddiad yn cynnig y dylid defnyddio rhywfaint o'r arian i gyflogi ymchwilydd ariannol, sydd yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfer defnyddio cyllid y Ddeddf Elw Troseddau. Roedd y PG yn ystyried bod hyn yn ddefnydd doeth o'r arian gan fod y galw o ran y maes hwn yn parhau i dyfu. Ceisiodd y CHTh sicrwydd mai'r cynnig oedd cynyddu nifer yr ymchwilwyr, nid amnewid yr hyn a allai fod wedi'i ddileu yn y gorffennol. Hefyd, holodd y CHTh pa un ai a fyddai angen swyddog heddlu ar gyfer y swydd. Cadarnhaodd y PG bod angen sgiliau ariannol fforensig ar gyfer y rôl, ac nid oedd angen swyddog o reidrwydd. Holodd y CHTh pa un ai a oedd y cynnig yn gysylltiedig â galw, a pha un ai a oedd un swydd yn ddigon. Cytunwyd y byddai JW yn ceisio eglurhad ynghylch hyn ac yn cynghori'r CHTh yn unol â hynny.

**Cam gweithredu: Rhoi eglurhad i'r CHTh mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer cyllid y Ddeddf Elw Troseddau**

Cododd y CHTh yr adroddiad a dderbyniwyd yn ddiweddar mewn perthynas â chyllid diogelwch y ffyrdd mewn ymateb i gam gweithredu blaenorol. Gofynnodd y CHTh am i fanylion pellach gael eu darparu mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer sut y bydd yr arian yn cael ei wario. Cytunwyd y byddai'r cam gweithredu (rhif 2005) yn cael ei ail agor.

Gadawodd JW y cyfarfod.

***Diweddariad ynghylch gwasanaethau meddygol fforensig (PB 2021)***

Dywedodd y PG bod y PGC wedi cwrdd â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda er mwyn trafod y mater. Tra bod y bwrdd iechyd yn awyddus i fod yn rhan o ddarparu gwasanaeth o'r fath, teimlwyd nad oedd y gallu ganddynt i reoli'r prosiect ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth ynghylch dewisiadau amgen, ac awgrymwyd y gellid archwilio i gydweithio gyda De Cymru a Gwent cyn mynd allan i dendro am wasanaeth newydd. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei godi yng Ngrŵp Plismona Cymru Gyfan, a thrafod â'r adran gaffael.

**Cam gweithredu: Rhoi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â gwasanaethau meddygol fforensig**

**Cam gweithredu: Trafod gwasanaethau meddygol fforensig yn y Grŵp Plismona Cymru Gyfan ar 11/10/16 a thrafod â'r adran gaffael**

**Unrhyw fusnes arall**

***Adborth gan y cyhoedd ynghylch meddu ar ganabis***

Cododd y CHTh bryder a dderbyniwyd drwy Twitter mewn perthynas â dedfrydu unigolyn am feddu ar ganabis. Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod yr Heddlu'n blaenoriaethu'r rhai sy'n gysylltiedig â gwerthu a dosbarthu cyffuriau. Darparodd y PG gyd-destun o gwmpas yr achos dan sylw. Rhoddodd y PG sicrwydd nad oedd defnyddwyr lefel is yn cael eu targedu fel blaenoriaeth, a bod y ffocws ar y rhai sy'n cyflenwi ac yn dosbarthu.

***Arllwysiad cerosin yng Nghaerfyrddin***

Cododd y CHTh y digwyddiad a oedd wedi derbyn llawer iawn o sylw dros y penwythnos. Holodd y CHTh pwy oedd yr asiantaeth gyfrifol o ran pennu pa un ai a ddylid dilyn erlyniadau. Dywedodd y PG fod hyn yn cael ei arwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac y byddai Prif Arolygydd yn bresennol mewn cyfarfod rheoli digwyddiad maes o law. Gofynnodd y CHTh am gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r sefyllfa.

**Cam gweithredu: Rhoi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r modd y mae'r arllwysiad cerosin yn cael ei reoli**

Yn ogystal, soniodd y CHTh am y materion traffig parhaus o ganlyniad i gau rhan o'r A48, gan holi pam oedd ceir sy'n gadael Pencadlys HDP yn ymddangos fel pe baent yn cael triniaeth ffafriol yn ystod oriau brig. Dywedodd y PG nad oedd cais wedi'i wneud ar gyfer hyn, a bod llif y traffig yn cael ei reoli gan yr Awdurdod Priffyrdd.

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 10/10/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2060** | **Ystyried cyfle ar gyfer fideo gynadledda ar gyfer yr uwch-gynhadledd fformiwla ariannu ar 14/10/16** | **CM** |
| **PB 2061** | **Diweddariad ynghylch y defnydd o oedolion priodol i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar sail chwarterol** | **MMS** |
| **PB 2062** | **Rhoi crynodeb o'r adroddiad ar gydymffurfiaeth o ran troseddau trais rhywiol gan AHEM i'r CHTh** | **MMS** |
| **PB 2063** | **Darparu diweddariad ynglŷn â nifer y gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** | **MMS** |
| **PB 2064** | **Gwahodd y CHTh i seremoni cymeradwyaethau'r PG** | **MMS** |
| **PB 2065** | **Sefydlu grŵp ymchwil a chynnal cyfarfod agoriadol cyn diwedd y flwyddyn** | **CM** |
| **PB 2066** | **Rhoi eglurhad i'r CHTh mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer cyllid y Ddeddf Elw Troseddau** | **JW** |
| **PB 2005 (ail agorwyd)** | **Adrodd i'r CHTh ar sut yr oedd arian dros ben o ran ailhyfforddi gyrwyr yn cael ei wario, a rhoi cynllun iddo ar gyfer gwariant yn y dyfodol** | **PSA** |
| **PB 2067** | **Rhoi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â gwasanaethau meddygol fforensig** | **PGC** |
| **PB 2068** | **Trafod gwasanaethau meddygol fforensig yn y Grŵp Plismona Cymru Gyfan ar 11/10/16 a thrafod â'r adran gaffael** | **CHTh** |
| **PB 2069** | **Rhoi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r modd y mae'r arllwysiad cerosin yn cael ei reoli** | **MMS** |